Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **13 Mehefin 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-06/16: Presennol
Cadeirydd Cyng. R Cadwalader
Is-Gadeirydd Cyng. Sian Williams
Cyng. Elizabeth Regan; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. R T Price; Cyng. W A Evans; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones

2-06/16: Ymddiheuriadau
Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Elizabeth George; Cyng. Wayne Roberts.
Roedd y Cyng. Henry Jones wedi cyrraedd adref o'r ysbyty a dymunwyd yn dda iddo.

3-06/16: Datgan diddordeb
Cyng. Elizabeth Regan (eitem 5 – y gwasanaeth llyfrgell)

4-06/16: Cadarnhau cofnodion mis Mai
Cytunwyd i ychwanegu enw Cyng. Elizabeth Regan fel aelod o'r pwyllgor mwynderau. Llofnodwyd y cyfrifon yn unol â'r gyfraith.

5-06/16: Y gwasanaeth llyfrgell
Croesawyd swyddogion Cyngor Gwynedd – Hywel James (Pennaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd) a Catrin Tomos (Uwch-Reolwr Dysgu Cymunedol) – i'r cyfarfod.

Amlinellodd y swyddogion y cefndir i'r newidiadau arfaethedig: roedd y stoc llyfrau wedi cael ei dorri 25% a bod angen gwneud arbedion effeithlonrwydd o £102,000. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar, lluniwyd opsiynau posib ar gyfer dyfodol y gwasanaeth er mwyn dechrau trafodaethau gyda'r gwahanol gymunedau yn hynny o beth ac yna i gyflwyno'r opsiynau i Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Medi. Y fframwaith potensial a gynigir yw:

1. 9 llyfrgell rhanbarth, gyda'r bwriad o gwtogi oriau
2. 4 llyfrgell gymunedol, gyda Chyngor Gwynedd yn parhau i gynnal y gwasanaeth ond nid yr adeilad
3. 4 llyfrgell ddolen

Rhagwelir mai llyfrgell gymunedol (2) fydd llyfrgell Criccieth. Bydd Cyngor Gwynedd yn rheoli'r gwasanaeth a'r ochr staffio. O ran yr adeilad, bydd modd i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ei gynnal a chadw un ai i'r Cyngor Tref, sefydliad lleol arall neu i grŵp newydd a sefydlir yn unswydd i'r perwyl hwn. Eglurwyd bod costau rhedeg yr adeilad presennol tua £10,000 y flwyddyn, ac roedd y swyddogion yn aros am ffigyrau ar gyfer costau strwythurol a chynnal a chadw'r adeilad yn y dyfodol.

Opsiwn arall fyddai symud y llyfrgell i adeilad arall yn y dref, a thrafodwyd y syniad o'i symud i Encil y Coed. Cytunwyd bod yna dan-ddefnydd o'r adeilad ar hyn o bryd a thrafodwyd yr ymarferoldeb o ddefnyddio'r adeilad ar y cyd gyda'r gwasanaeth oedolion. Gofynnwyd os oedd yna sicrwydd y gellir cael cytundeb tymor hir gyda'r gwasanaeth oedolion i ymgartrefu'r llyfrgell yno: nid oes modd gwaranti hyn.

Pe bai'r llyfrgell yn symud o'r adeilad presennol, byddai'r sefyllfa gyfreithiol o ran ei werthu yn un gymhleth oherwydd termau'r gymynrodd. Roedd adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn edrych mewn i hyn ar hyn o bryd.

Cytunodd yr aelodau y dylai'r swyddogion symud ymlaen i gael trafodaeth gyda'r gwasanaeth oedolion er mwyn derbyn gwybodaeth llawnach am yr opsiwn o symud y llyfrgell i Encil y Coed. Gofynnwyd hefyd i'r swyddogion i ddanfon gwybodaeth bellach i'r Cyngor Tref am yr holl opsiynau, gan gynnwys y goblygiadau pe bai sefydliad lleol am gymryd cyfrifoldeb dros yr adeilad presennol.

Cytunwyd felly i drafod yr opsiynau yn llawn yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r Cyngor Tref ac i hysbysu'r swyddogion o benderfyniad yr aelodau ar ôl hynny.

6-06/16: Eitemau brys ac er gwybodaeth

- Llwybr 11: Derbyniwyd lythyr oddi wrth Cyngor Gwynedd yn cadarnhau bod y llwybr yn disgyn tu allan i bolisi cynnal a chadw hawliau tramwy'r Cyngor gan ei fod yn gategori 3. Byddai'r Cyngor yn fodlon i ymgymryd â gwaith gwella pe bai'r perchennog a'r tenant yn caniatau'r gwaith, ond ar hyn o bryd nid oedd caniatad wedi ei roi. Nid oes gorchymyn wedi ei roi i ail agor y llwybr.

7-06/16: Gohebiaeth

a. Cais am osod mainc mewn coffadwraeth (ardal Morannedd)
Derbyniwyd cais gan breswylydd lleol i osod mainc. Prif bryder yr aelodau oedd bod meinciau yn cael eu gosod ac yna ddim yn cael eu cynnal a chadw. Roedd yr aelodau am bwysleisio bod y Cyngor Tref am roi blaenoriaeth i ymgeiswyr lleol yn rhannol oherwydd y mater cynnal a chadw yma.

Penderfyniad: nid oedd gan yr aelodau wrthwynebiad yn yr achos hwn. Ond dylid hysbysu'r ymgeisydd o bolisi cyffredinol y Cyngor Tref yn hyn o beth, trwy bwysleisio mai nid cyfrifoldeb y Cyngor Tref oedd i gynnal a chadw y fainc. Yn ogystal, dylai'r ymgeisydd dderbyn caniatad yn y pen draw oddi wrth Cyngor Gwynedd ynghyd â chanllawiau perthnasol.

b. Cais am osod arwydd 'dim troi' neu 'no through road' neu 'ffordd breifat', Cambrian Terrace
Roedd trigolion y stryd am osod arwydd o'r fath oherwydd y nifer o gerbydau a oedd yn gyrru ar hyd y stryd heb sylweddoli nad oedd yna ffordd yn arwain trwy'r deras. Roedd hyn y creu trafferthion. Roedd y preswylydd wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, ac roedd hefyd am sylwadau'r Cyngor Tref.
Penderfyniad: nid oedd yr aelodau yn credu gall arwydd 'ffordd breifat' gael ei osod, ond doedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i osod arwydd 'dim ffordd drwodd'.

c. Ad-dalu Costau Cynnal a Chadw Llwybrau Cyhoeddus
Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd mai'r uchafswm y gellir ei hawlio o eleni ymlaen byddai £487.79 a bod yna bosibilrwydd y byddai'r ad-daliad yn cael ei ddiddymu yn y dyfodol o ganlyniad i doriadau'r awdurdod lleol. Derbyniwyd yr wybodaeth.

d. Enwau cywir 'Arvonia Terrace' a 'Salem Terrace'
Derbyniwyd yr ymholiad oddi wrth adran rheolaeth adeiladu Cyngor Gwynedd.
Penderfyniad: Rhes Arfonia a Rhes Salem y dylid eu rhoi ar y strydoedd dan sylw.

e. Enw Black Rock Sands/Traeth Morfa Bychan
Penderfynodd yr aelodau y dylid pennu yr enwau dwyieithog Black Rock Sands a Thraeth y Greigddu gan mai yr enwau yma a ddefnyddir yn gyffredinol. Credir bod yr enw Traeth Morfa Bychan ond yn berthnasol i ochr ddwyreiniol pella'r traeth.

f. Rhaglen waith Trafnidiaeth a Phriffyrdd (Cyngor Gwynedd)
Gwaith arwisgo (Criccieth-Broneifion)
Gwaith slyri ar droedffordd (LônTynllan a Wern yr Wylan).
Derbyniwyd yr wybodaeth.

8-06/16: Mabwysiadu Diwygiadau i'r Côd Ymddygiad newydd

Dosbarthwyd y ddogfen ac amlinelliad o'r newidiadau i'r aelodau o flaen llaw.

Penderfyniad: yn unfrydol i fabwysiadu'r côd gyda'r diwygiadau dan sylw.

Yn unol â'r rheolau, roedd angen i'r Cyngor Tref i drefnu hysbysiad cyhoeddus bod y côd wedi ei fabwysiadu, ond y tro yma bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi hysbyseb cyffredinol ar ran yr holl gynghorau cymuned.

9-06/16: Ceisiadau Cynllunio

Cais C16/0564/35/LL
Cais i godi 10 uned fforddiadwy – tir gwag ger Waen Helyg
Penderfyniad: Doedd gan yr aelodau ddim gwrthwynebiad i adeiladau'r unedau fforddadwy, ond roedd ganddynt bryderon nad oedd lle wedi ei neulltio ar gyfer maes chwarae i'r plant. Roedd hyn yn bwysig gan y byddai'n rhaid i'r plant groesi ffordd brysur/beryglus i gyrraedd y man chwarae yn Ty'n Rhos. Dylid tanlinellu bod angen cae chwarae fel rhan o'r datblygiad.

Ni gymerodd y Cyng. Eirwyn Williams, yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, unrhyw rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar y ceisiadau cynllunio hyn.

10-06/16: Prosiectau

Gwaith cynnal a chadw
Roedd y Clerc wedi cael peintwyr i edrych ar y cysgodfannau a saer i edrych ar yr hysbysfwrdd ac roedd yn aros am amcanbrisiau.

Diwrnod Casglu Sbwriel
Roedd y swyddog Catrin Glyn yn aros am gyngor ar ddyddiadau nythu cyn medru cynnig dyddiadau. Roedd hi bellach wedi bod yn trafod syniadau y gall busnesau lleol eu mabwysiadu o ran torri lawr ar ddefnydd o foteli plastig, roedd wedi derbyn ymateb gadarnhaol hefyd ar gyfer gosod cyfarpar clirio sbwriel a bagiau cyfleus mewn siopau. Y nod oedd i Griccieth i ddangos ymarfer da i lefydd eraill.

11-06/16: Cais am gyfraniadau ariannol

Grŵp Dawns Ysgol Treferthyr
Derbyniwyd cais oddi wrth aelod o'r grŵp am gyfraniad ar gyfer gwisgoedd a chostau teithio.

Penderfyniad: i roi £100 ac i egluro nad oedd modd i'r Cyngor i roi mwy na hyn y tro yma.

Côr Eifionydd
Derbyniwyd cais am gyfraniad ar gyfer costau cynnal cyngerdd dathlu ym Mhorthmadog ym mis Gorffennaf.

Penderfyniad: oherwydd polisi'r Cyngor Tref i roi blaenoriaeth i ddigwyddiadau a gynhelir yn y dref, penderfynwyd i beidio rhoi cyfraniad y tro hwn. Roedd hefyd angen mantolenni ar gyfer ceisiadau.

12-06/16: Cyfrifon 2015-2016 – Archwiliad Allanol

Roedd y cyfrifon wedi eu cyflwyno i'r aelodau yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor Tref yn dilyn yr archwiliad mewnol. Erbyn hyn roedd yr archwilydd mewnol wedi cwblhau yr adrannau perthnasol o'r ffurflen allanol ac wedi cadarnhau bod y cyfrifon mewn trefn. Roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi monitro'r drefn ym mis Chwefror ac wedi cadarnhau bod popeth yn ei le bryd hynny: Cyflwynwyd y ffurflen allanol terfynol felly ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc.

13-06/16: Swydd y Clerc
Drafftiwyd swydd ddisgrifiad gan y Clerc a chyflwyniwyd hwn i'r aelodau. Trafodwyd y syniad o rannu swydd a gofynnwyd i'r clerc i lunio opsiynau o rannu cyfrifoldebau mewn ffyrdd pwrpasol. Cytunwyd i drafod yr opsiynau yn y cyfarfod nesaf ac i ystyried hysbysebu ar sail yr opsiynau hynny.

14-06/16: Derbyniadau

Ad-daliad TAW (2015-16)	£1,303.27

15-06/16: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE)	£ 76.60	siec 101005
• Cyflog y Clerc	£306.74	siec 101004
• Torch (French Commandos)	£ 17.00	siec 101006
• Cofeb y French Commandos (Cerrig)	£252.00	siec 101007

Rhoddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 11 Gorffennaf 2016**

** Bydd y rhaglen yma yn cau **3 Gorffennaf 2016** **